CYFARFOD Y CYNGOR BRO - COFNODION

Dydd Mawrth 28 Mehefin, 2022 - 7.00yh Neuadd Goffa

Presennol: Stephen Edwards (Cadeirydd), Gareth C Jones, Alun Mummery, Alun Jones, Gwynfor Parry, R Meirion Jones, Dyfed Jones (1), Dyfed W Jones (2), John Roberts, Medwyn Roberts ac Arfon Williams.

1.0	**Ymddiheuriadau**	**Gweithredu**	**Erbyn**
	Adam Roberts, Ifor Gruffydd, Gillian Morris y Clerc [a Robin Williams, Cynghorydd Sir]		
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb**	**Gweithredu**	**Erbyn**
	14.6 isod - Dyfed Jones (1)		
3.0	**Camau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol**	**Gweithredu**	**Erbyn**
6.1	Neuadd Goffa (Rhaglen 12.2)– Derbyniwyd diweddariad gan Gareth Cemlyn Jones ac Alun Jones par cwblhau'r gwaith a gwaith yr adeiladydd efo drysau/partisiwn a'r disgwyl iddynt gael eu cwblhau erbyn 18/7, y drws allanol, a'r larwm, a bod rhai costau wedi eu harbed, ymweliad gan y plymiwr wedi digwydd ac ymweliad y swyddog prisio / swyddog loteri wedi'i drefnu a gwybodaeth am y llogi a sôn am y sefyllfa ariannol.		
6.2	Y Fynwent – Gwynfor Parry yn adrodd ei fod wedi cyfarfod efo Ed Henderson, arbenigwr coed, a chael cyngor i ymchwilio i wreiddiau 2 goeden (drwy dyllu) a thorri 3 coeden. Y cynnig arall ydi tarmacio dros y gwreiddiau. Pwyllgor y Fynwent i drafod ac Alun Jones i gysylltu efo Ifan a threfnu cyfarfod efo John Roberts a Gwynfor Parry.		
6.3	Meysydd Chwarae – Adroddwyd gan Stephen Edwards fod un gôl wedi'i symud.		
6.4	Amgylchedd ac Eiddo – Adroddodd wŷd nad oedd blodau wedi'u prynu eto a Gweler 14.4 isod.		
4.0	**Pwyllgorau Allanol - Adroddiadau er gwybodaeth**.	**Gweithredu**	**Erbyn**
	Dim		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Cyngor Bro 24 Mai, 2022**	**Gweithredu**	**Erbyn**
5.1	Stephen Edwards yn cynnig bod y Cofnodion yn gywir, Alun Mummery yn eilio. Derbyniwyd hyn.		
6.0	**Cyfrifon a Thaliadau mis Mehefin 2021**	**Gweithredu**	**Erbyn**
6.1	Awdurdodwyd i wneud y taliadau. Cynigwyd gan Stephen Edwards ac eiliwyd gan Alun Mummery. Derbyniwyd hyn.		
6.2	Trafodwyd i'r Clerc anfon y manylion ariannol o flaen llaw i bob cyfarfod y Cyngor Bro misol, a bod taenlen yn cael ei pharatoi a chysoni efo'r banc bob chwarter. Soniodd Gareth Cemlyn Jones am y sustem Sage a bod dwy fersiwn a bydd trafodaeth bellach i gynnwys y Clerc yn y Pwyllgor Cyllid.		
7.0	**Ceisiadau Cynllunio**	**Gweithredu**	**Erbyn**
7.1	Canolfan Iechyd – soniodd Alun Mummery am y cais a'r cefndir.		
8.0	**Penderfyniadau Cynllunio**	**Gweithredu**	**Erbyn**
8.1	Dim penderfyniad		
9.0	**Trafod**	**Gweithredu**	**Erbyn**

9.1	Aelodaeth o'r Cyngor / Ymddiswyddiad (12.1) – Roedd sedd wag yn dilyn ymddiswyddiad Catherine Morris Roberts yn Ward Braint a bod cyfle i lenwi'r sedd heb roi rhybuddion statudol.			
9.2	Rhandiroedd (12.4) – Derbyniwyd diweddariad gan Dyfed Jones (1). Roedd un person wedi tynnu ei enw'n ôl a dau enw arall wedi eu hychwanegu a mae'r rhestr yn llawn. Bydd y trefniadau yn parhau a datganwyd y gobaith i gael agor y Rhandiroedd ym mis Medi.			
9.3	Eglwys y Santes Fair (12.5) – Codwyd y mater gan Alun Jones a soniodd am gyflwr y glaswellt a'r tyfiant ym Mynwent yr Eglwys. Roedd yn bryderus am y mater a bod trigolion yn cael trafferth i fynd at feddau eu hanwyliaid. Pwysleisiodd fod rhai teuluoedd yn rhoi sylw i feddau'r teulu. Ategodd Gwynfor Parry. Dywedodd Alun Mummery fod y mater wedi cael sylw yn y rhifyn cyfredol o Papur Menai a chyfeiriwyd at "eglwys eco". Cyfrannodd John Roberts wybodaeth gefndirol a bod yr Eglwys yng Nghymru wedi penderfynu peidio torri'r glaswellt a bod yn eglwys dros natur ond ar ôl trafodaeth fewnol yn ddiweddar roedd yr Eglwys leol sef Eglwys y Santes Fair wedi penderfynu torri'r glaswellt a'r tyfiant. Cynigiodd Alun Mummery i anfon llythyr at Ysgrifennydd yr Eglwys leol a bu trafodaeth pryd i'w anfon. Cynigiodd Meirion Jones y byddai'n drafftio llythyr yn syth i gynnwys pryderon y Cyngor Bro a hefyd cyfeirio at benderfyniad diweddar yr Eglwys leol i dorri'r tyfiant. Eiliwyd gan Alun Mummery a derbyniwyd hynny.			
9.4	Blodau'r Pentref (12.6) – Cafwyd diweddariad gan Medwyn Roberts bod Meinir, ei wraig, wedi gwneud gwaith i gynnwys chwynnu ayyb. Pwysleisiwyd gan aelodau eraill y dylai Meinir gael ei thalu ar delerau tebyg i'r rheini fu'n bodoli efo Susanah [??] oedd yn gwneud y gwaith.			
9.5	Y Gors a Baw Cŵn (12.7) Derbyniwyd wybodaeth gan Alun Jones bod bocs baw cŵn ar gael am £12 i gynnwys ei roi yn ei le, ond bod Bin du yn gorfod bod gerllaw. Cytunwyd i Alun Jones, Medwyn Roberts a Gwynfor Parry i hel y wybodaeth am safleoedd addas. Derbyniwyd hyn. Hefyd soniwyd am y biniau melyn. Cododd Medwyn Roberts broblem parthed y Gors ac absenoldeb arwydd/ion ynglŷn â baw cŵn. Cytunwyd i drosglwyddo'r mater i 'r Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo yn ei gyfarfod nesaf. Yn y cyfamser i ofyn i'r Clerc wneud ymholiadau am gost gwagio bin du. Cynigwyd gan Medwyn Roberts ac eiliwyd gan Meirion Jones i gael y arwyddion ar y Gors a derbyniwyd hyn.			
9.6	Toiledau (12.3) – Rhoddodd Stephen Edwards adroddiad am y datblygiadau a bu gryn drafodaeth ar gynnwys neges y cyfreithiwr. Roedd angen manylion y datblygiadau a llinell amser a gwirfoloddodd Meirion Jones i drafod y mater efo'r Clerc a pharatoi'r rhestr. Eiliwyd gan Stephen Edwards. Derbyniwyd hyn.			
10.0	**Dyddiad Cyfarfod Nesaf**			
	Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.00yh ar 26 Gorffennaf, a 2022			
**** DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI AM FYNYCHU ****				